**BWRSARIAETH GOFALWYR**

**TELERAU AC AMODAU 2022/23**

## 1. MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

A. Rhaid ichi gael eich ystyried **yn fyfyriwr Cartref** at ddibenion talu ffioedd.

B. Rhaid ichi fod ym **mlwyddyn gyntaf eich astudiaethau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn 2022.**

C. Rhaid ichi fodloni **diffiniad yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr o ofalwr**:

"Unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu na allant, oherwydd salwch, anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu gaethiwed, ymdopi heb eu cefnogaeth."

## 2. CAIS

Cysylltir â myfyrwyr newydd, sydd wedi **datgan eu statws gofalwr wrth gofrestru**, yn ystod y tymor cyntaf ac fe'u gwahoddir i wneud cais am y fwrsariaeth. Os na wnaethoch ddatgan eich statws gofalwr wrth gofrestru, ond eich bod yn credu efallai eich bod chi'n gymwys, cysylltwch ag ecook@cardiffmet.ac.uk yn uniongyrchol.

Byddai'n rhaid i fyfyrwyr ddarparu cadarnhad eu bod nhw'n ofalwyr gan rywun sy'n ymwneud â'r teulu ar sail broffesiynol (e.e. Gweithiwr Cymdeithasol, meddyg teulu ac ati).

## 3. DYRANNU

**A. Mae'r niferoedd a fydd yn derbyn y wobr yn gyfyngedig ac yn dibynnu ar argaeledd y cyllid.** Bydd ceisiadau am y fwrsariaeth yn cau pan fydd yr holl ddyfarniadau wedi'u rhoi neu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd (pa un bynnag sydd gyntaf). Os bydd cyllid yn weddill erbyn diwedd Tymor 2, byddwn yn gwahodd y rhai sy'n cwrdd â'r meini prawf ac sydd naill ai ddim ym mlwyddyn gyntaf eu hastudiaethau neu a fu'n aflwyddiannus wrth ennill y wobr yn ystod y cam ymgeisio, i ymgeisio. Fodd bynnag, os ydych wedi derbyn y fwrsariaeth yn barod yn ystod blwyddyn gyntaf eich astudiaethau, ni fyddwch yn gymwys i ymgeisio eto.

**B.** Rhaid ichi fod **wedi cofrestru** ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd er mwyn bod â hawl i'r fwrsariaeth:

- Os byddwch yn **tynnu'n ôl** o'ch cwrs, bydd pob elfen o'r fwrsariaeth yn dod i ben ar unwaith.
- Os cewch eich **gwahardd dros dro** rhag eich astudiaethau, bydd pob elfen o'r fwrsariaeth yn dod i ben ar unwaith.
- Os byddwch yn **gadael eich gradd**, bydd pob elfen o'r fwrsariaeth yn dod i ben ar unwaith.

## 4. GWOBRAU

Cyfanswm gwerth y wobr yw **hyd at £1,000 ar gyfer myfyrwyr amser llawn** a **hyd at £500 ar gyfer myfyrwyr rhan-amser**.

Bydd gennych **fentor staff penodedig** a all eich cefnogi a’ch cynghori ar bob agwedd ar fywyd prifysgol. Gallant weithredu fel pwynt cyswllt cyntaf rhyngoch chi a'ch cwrs/y Brifysgol i sicrhau eich bod yn cael mynediad at yr holl gefnogaeth sydd ar gael ichi.

**5. AIL-DDYRANNU**

- Bydd myfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ond na chynigiwyd y fwrsariaeth iddynt yn cael eu cynnwys ar **restr aros**.
- **Os ydych ar y rhestr aros, gwnewch ddarpariaeth ariannol i dalu am eich costau hanfodol oherwydd ni allwn warantu y dyrennir Bwrsariaeth Gofalwyr ichi.**

**6. CYFYNGIADAU**

- Unwaith ichi gofrestru, anfonir unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â’r fwrsariaeth at eich **cyfeiriad e-bost myfyriwr.**
- **Nid yw'r fwrsariaeth hon ar gael os ydych chi’n astudio mewn coleg masnachfraint neu sefydliad partner.** Cysylltwch â'ch coleg neu sefydliad partner i drafod y bwrsariaethau ac ysgoloriaethau sydd ar gael.